

Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn

Cynnwys y Pecyn

Taflen Wybodaeth

Y daflen hon, sydd â gwybodaeth ar y ddwy ochr.

Cardiau Symbolau CCUHP

Set o gardiau A4, gydag un o'r erthyglau a'r symbol sy'n cyfateb iddi ar bob cerdyn.

Ar gefn bob cerdyn mae disgrifiad o'r erthygl mewn geiriau. Mae'r testun yma'n gallu cael ei ddefnyddio i atgoffa'r hwylusydd, neu i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd.

Set ychwanegol o gardiau, gydag un o bedair thema CCUHP ar bob un: Goroesiad, Datblygiad, Dweud eich Dweud a Diogelwch.

Poster

Poster ar bedair thema CCUHP: Goroesiad, Datblygiad, Dweud eich Dweud a Diogelwch.



www.cypcs.org.uk



www.childrenscommissioner.gov.uk




www.complantcymru.org.uk

Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn

Am Symbolau

Symbolau yw delweddau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi testun, a gwneud yr ystyr yn fwy clir ac yn haws ei ddeall. Maen nhw'n cyflwyno cysyniad mewn ffordd weledol. Setiau o Symbolau yw casgliadau cynhwysfawr o ddelweddau sy'n rhoi mwy o gefnogaeth na clip art neu eiconau. Mae Setiau o Symbolau yn aml yn dilyn strwythur penodol, neu set o 'reolau' dylunio, sy'n helpu'r darlennydd i ehangu geirfa'n annibynnol.



Yesterday



the librarian



ordered



a book



for



me.

Gall symbolau roi cefnogaeth mewn llawer o ffyrdd...

Annibyniaeth a deall eich hawliau

Mae symbolau'n helpu dealltwriaeth, sy'n gallu cynyddu ymwneud, dewis a hyder.

Gallu creadigol a hunan-fynegiant

Ysgrifennu llythyron, storïau a mynegi barn.

Cyfathrebu

Gall llyfrau a dyfeisiau sy'n cyfathrebu trwy symbolau helpu pobl i wneud dewisiadau a mynegi eu hunain.

Llythrennedd a dysgu

Gall symbolau gefnogi'r cwricwlwm i blant sy'n cael trafferth gyda thestun.

Mynediad i wybodaeth

Mae angen gwybodaeth hygyrch ar bawb ohonon ni, a dylai sut mae'n cael ei chyflwyno olygu bod y darlennydd yn gallu ei deall a'i defnyddio.

Mae'r pecyn yma'n defnyddio Symbolau Widgit. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy fynd i... www.widgit.com/about-symbols